**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

17 Ebrill 2018

Annwyl Mark,

Y BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Rwy'n falch bod y Cynulliad wedi derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ar 21 Mawrth 2018 ac rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth y Llywodraeth.

Rwy'n awyddus i weithio gyda chi er mwyn bwrw ymlaen â'r Bil mewn modd sy'n foddhaol i'r ddau ohonom, a byddai'n ddefnyddiol pe gallem gyfarfod i drafod ymhellach y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y Bil. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai modd i swyddogion y Cynulliad gyfarfod â'ch swyddogion chi i drafod manylion y gwelliannau i'r Bil yr hoffech eu gweld ac i gadarnhau pa wybodaeth bellach sydd ei hangen arnoch i alluogi'r Llywodraeth i gyflwyno penderfyniad ariannol.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i roi gwybod ein bod yn parhau i drafod ac i nodi y bydd angen ymestyn y terfyn amser dros dro ar gyfer Cyfnod 2 a gytunwyd yn flaenorol, sef 18 Mai 2018.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddfa gysylltu â Leanne Hatcher, Clerc y Pwyllgor, ar 0300 200 6343 (seneddcyllid@cynulliad.cymru), i drefnu amser addas.

Yn gywir

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*